# MORRIS, JOHN (1706 - 1740), morwr

**Enw:** John Morris
**Dyddiad geni:** 1706
**Dyddiad marw:** 1740
**Rhiant:** Margaret Morris (née Owen)
**Rhiant:** Morris Morris
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** morwr
**Maes gweithgaredd:** Milwrol; Teithio
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

mab ieuengaf Morris ap Rhisiart Morris, a brawd i Lewis, Richard, a William Morris (gweler yr ysgrifau arnynt); ganwyd yn 1706. Ni wyddys fawr ddim amdano, fwy nag a geir mewn ysgrif (ar ei frawd Lewis) yn y *Cambrian Register*, 1796, 232, a ddywed iddo farw ar fwrdd y llong-ryfel *Torbay* (yn y cyrch aflwyddiannus ar Cartagena) yn 1740, yn 34 oed - yr oedd yn ' master's mate ' ar y llong. Y mae gennym ryw 22 o'i lythyrau, tt. 6-36 o'r *Morris Letters*, yn ymestyn o 5 Gorffennaf 1739 hyd 22 Medi 1741. Gwyddom ei fod gyda'i frawd Richard yn Llundain yn 1735, ac y mae gan Richard (1734) englyn yn ei ganmol yn fawr am ei fwynder (*Llawysgrif Richard Morris o Gerddi*, tt. cix, cxi).

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu